# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 11 Tachwedd 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas ac J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu [Tywi Taf]
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
S. Dawson, Prisiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Evans, Assistant Democratic Services Officer
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 12.25 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd I.W. Davies.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/00596** | **Addasu 2 ysgubor yn llety gwyliau gyda garej â lle i dri char yn yr ysguboriau ym Mryn Niwl, Meidrim, Caerfyrddin SA33 5QS** |
| **PL/01088** | **Creu un llain i deuluoedd sy’n deithwyr gydag un uned breswyl sefydlog, carafan deithiol, ystafell ddydd/aml-bwrpas a man parcio a gwelliannau i'r mynediad presennol a gwelliannau tirlunio ar dir a llain yng nghefn Rhodfa Frondeg, Llanelli, SA15 1QD** |

| | |
|---|---|
| **PL/02740** | **Gosod peiriant casglu presgripsiynau awtomataidd ym Meddygfa Avenue Villa, Heol Brynmor, Llanelli, SA15 2TJ** |

**3.3.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio i'w wrthod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/01515** | **Cais i adeiladu annedd menter wledig (ailgyflwyno cais w/39836 a gafodd ei wrthod ar 03/12/2020) ar dir sy'n rhan o Fferm Trewern, Ffordd Llysonnen, Abernant, Caerfyrddin, SA33 5EW**<br><br>Yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio i wrthod y cais, roedd y Pwyllgor o'r farn fod y cais yn dderbyniol yng nghyd-destun paragraff 4.4.1 o TAN6 'Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy' gan fod cyfiawnhad menter wledig dros yr annedd yn seiliedig ar y canlynol:<br><br>1. Roedd angen byw ar y safle er mwyn i'r fenter weithredu'n briodol ac er diogelwch a lles y stoc.<br>2. Y lefelau stocio presennol a maint gweithrediadau'r fferm.<br>3. Roedd gan yr ymgeisydd 3 blynedd o gyfrifon ariannol yn dangos bod y fenter yn gadarn yn ariannol.<br>4. Ni fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar ymddangosiad a chymeriad traddodiadol y lleoliad oherwydd y clwstwr presennol o dai gerllaw.<br><br>Mae'r cais yn gyson â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â pharhad y cenedlaethau o ran ffermio.<br><br>Rhoddir caniatâd cynllunio yn amodol ar y canlynol:-<br><br>1. Bod yr annedd newydd arfaethedig yn cael ei hystyried yn Annedd Menter Wledig gyda'r amodau safonol yn cael eu gweithredu.<br>2. Bod y tŷ arfaethedig yn cael ei glymu gan amod i dir y fferm er mwyn ei atal rhag cael ei werthu yn y dyfodol fel endid ar wahân i'r fferm ei hun.<br>3. Bod y llety presennol yn cael ei symud cyn pen dau fis o feddiannu'r tŷ arfaethedig.<br>4. Bod yr amodau priffyrdd fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, yn cael eu gweithredu. |

**3.3.3 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/40030** | **Annedd menter wledig arfaethedig i gynnwys mynediad i gerbydau, a gosod gwaith trin carthion bach, yn Moelfryn, Pantybwlch, Castellnewydd Emlyn, SA38 9JE**<br><br>Trafododd y Pwyllgor y cais a chytunodd yr aelodau, gan nad oedd yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r amodau fel y nodwyd yn yr adroddiad ac y cytunwyd arnynt flaenorol gan y Pwyllgor ar 3 Rhagfyr 2020, y dylid gwrthod caniatâd cynllunio. |

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:-

### 4.1. 14EG HYDREF, 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi'i gynnal ar 14 Hydref, 2021 gan eu bod yn gywir.**

### 4.2. 26AIN HYDREF, 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi'i gynnal ar 26 Hydref, 2021 gan eu bod yn gywir.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]